CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
4 Tachwedd 2020, Trwy Fideo 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, L Roberts, D Gwyn, A Mummery, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir) G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Dim	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 7.10.20. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng A Mummery yn cynnig a Cyng L Roberts yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Deffibriliwr** – Mae'r Cynghorydd N Jones wedi siarad â Peninsular Windows, Star ac maen nhw'n cytuno i'r cyngor osod diffibriliwr ar eu safle. Roedd pawb yn cytuno i'r Cadeirydd gysylltu â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i roi archeb am ddiffibriliwr
4.2	**Bus shelter Star** – Mae'r Clerc yn disgwyl I'r gwaith yn cael ei wneud.
4.3	**"Drop" yn y lon** rhwng Eglwys Penmynydd a'r groeslon – Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.4	**Elusendai Penmynydd** - Mae'r Cadeirydd yn dal i ddisgwyl am ateb gan yr esgob ynghylch cynnal cyfarfod
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MÔN**
	Dim
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
	Llofnod Cadeirydd 02.12.20

7	**MATERION ARIANNOL** Cytunwyd I dalu:
7.1	Costau y Clerc £95.30
7.2	Rhys Williams torri gwair y maes chwarae £400.00
7.3	Torch Sul y Cofio £18.50
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Adolgu cyflog y Clerc (o mis Ebrill 2021)- trafod yn y cyfarfod nesaf
8.2	Coed yn tyfu ar ochr lon – mae y Clerc wedi dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.3	Pentre Coed - Mae'r Cyngor wedi derbyn cais gan berchnogion Pentre Coed LL59 5RS am gefnogaeth gyda'u cais cynllunio. Roedd sawl aelod o'r farn bod yr eiddo yn ardal Menai. Nodwyd hefyd nad yw Cyngor Cymuned Penmynydd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth ynghylch ceisiadau cynllunio ers iddynt ddechrau 10 mlynedd yn ôl. Bydd y Clerc yn codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
8.4	Sul y Cofio – Dywedodd y Cynghorydd Mummery y bydd gwasanaeth byr yn cael ei gynnal yn Llanfairpwll ac y bydd yn gosod torch ar ran Cyngor Penmynydd
8.5	Bancio ar lein – Dywedodd y Cadeirydd fod y cais am fancio ar-lein i'r cyngor wedi bod yn llwyddiannus
8.6	Cynghrair Aethwy - Roedd sawl un o'r Cynghorwyr Cymunedol a Chynghorwyr Sir yr ardal wedi mynychu cyfarfod a drefnwyd gan Medrwn Mon ynghylch Ward Aethwy. Roeddent yn teimlo y byddai Penmynydd yn fwy addas I gysylltul â Llanfairpwll. Disgwylir cyfarfod arall ar 02.12.20. Nid yw'r Cyng D Gwyn yn dymuno mynychu cyfarfodydd pellach os ydynt i'w cynnal yn Saesneg.
8.7	Virginia Crosbie A.S. - Mae'r Cyngor wedi derbyn llythyr gan Virginia Crosbie A.S.yn gofyn am wahoddiad i gyfarfod misol. Penderfynodd yr aelodau ymateb gan nodi nad oeddent yn gyffredinol yn hapus gyda'i chyfieithiadau Cymraeg ac awgrymu ei bod yn cyflogi rhywun i brawfddarllen. Roeddent hefyd yn teimlo bod angen iddi barchu'r Gymraeg. Cynigiodd y Cynghorydd D Gwyn gyfansoddi llythyr ar ran y cyngor.
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod Cadeirydd 02.12.20